Please scroll down to read in English

**26ain Mawrth 2026**

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

**Gwrando ar athrawon: cefnogi cyflwyno ein TGAU Gwneud-i-Gymru newydd**

Dechreuwyd addysgu ton gyntaf ein TGAU Gwneud-i-Gymru newydd ym mis Medi. Ers hynny, rydym wedi gwrando'n ofalus ar adborth gan athrawon ac arweinwyr ysgolion. Deallwn yn arbennig y pryderon ynghylch y llwyth gwaith gweinyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r cymwysterau newydd hyn.

Rydym yn croesawu'r adborth adeiladol a gafwyd gan athrawon, mae hyn wedi tynnu sylw at rai heriau anfwriadol wrth gyflwyno'r cymwysterau hyn.

Gan ein bod yn gorff dyfarnu cyfrifol, rydym yn awyddus i sicrhau'r gymuned addysgu ein bod yn cymryd eich pryderon o ddifrif ac y byddwn yn parhau i weithio â rhanddeiliaid er mwyn ystyried sut y gallwn weithredu i'ch cefnogi o ran y cyflwyno a bod wrth law i ysgafnhau'r pwysau lle y bo'n bosibl gwneud hynny.

Ar yr un pryd, mae'n bwysig deall rôl CBAC ei hun a'r paramedrau oedd ar waith wrth ddatblygu'r cymwysterau hyn. Llywodraeth Cymru wnaeth osod y cyfeiriad cyffredinol o ran polisi pan gyflwynodd y Cwricwlwm i Gymru.

Sefydlodd ein rheoleiddiwr, Cymwysterau Cymru, y meini prawf cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd. Roedd hyn yn cynnwys fframwaith asesu ar lefel uchel, a datblygwyd y cymwysterau gennym yn unol â'r rhain. Rydym yn cydweithio i nodi a chytuno ar newidiadau lle y bo'n bosibl.

Wedi'u hamlinellu isod y mae sawl cam gweithredu a nodwyd gennym i gefnogi ysgolion:

**Camau gweithredu a gytunwyd**

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- **Estyn terfynau amser cyflwyno Asesiadau Di-arholiad:** Estynnwyd terfyn amser cyflwyno marciau Asesiadau Di-arholiad Uned 2 y TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg

- **Adolygu llinellau amser cyflwyno yn y dyfodol:** Gan ddefnyddio'r uchod fel sail, byddwn yn adolygu dyddiadau cyflwyno'r deunyddiau asesiadau di-arholiad ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27

- **Canllawiau ar ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI):** Bwriadwn ddatblygu canllawiau pellach i helpu athrawon i nodi a rheoli'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â defnyddio AI, mewn perthynas ag asesiadau di-arholiad yn benodol.

Byddwn yn cyfathrebu ymhellach maes o law o ran y camau gweithredu hyn, a bydd ein Tîm Cyfresi Arholiadau yn cydweithio'n agos â chanolfannau i sicrhau bod cefnogaeth lawn ar gael iddynt pan gyflwynir y newidiadau hyn.

**Ystyried sut i weithredu ymhellach**

Yn ogystal â'r camau hyn, rydym yn ystyried newidiadau ychwanegol y gellid eu cyflwyno yn y dyfodol. Bydd angen gwneud gwaith ymchwil i archwilio hyn, ac felly nid oes modd dweud yn sicr beth fydd y canlyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru yn ymwneud â'r ddeialog sy'n rhan o'r broses hon gan y gallai fod angen eu cymeradwyaeth nhw i weithredu rhai o'r camau sydd dan sylw.

Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y meysydd hyn:

- Adolygu'r gofynion o ran maint sampl ar gyfer uwchlwytho gwaith ymgeiswyr sydd wedi'u samplu
- Ystyried canllawiau pellach i gefnogi eithriadau o ran tasgau Asesiadau Di-arholiad coll, a lle y byddai/na fyddai ystyriaeth arbennig yn berthnasol, yn unol â rheoliadau'r CGC
- Cynnal adolygiad o ofynion asesu TGAU Iaith a Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg er mwyn ystyried cyfleoedd i fynd i'r afael â phryderon llwyth gwaith. Noder os gwelwch yn dda, dim ond y ddau bwnc hyn yw testun yr adolygiad ac ni chyflwynir unrhyw newidiadau, pe byddem yn nodi bod angen gwneud rhai, tan o leiaf y flwyddyn academaidd 2026/27.

**Cefnogi athrawon gyda deunyddiau enghreifftiol**

Yn flaenorol, cyhoeddwyd meini prawf asesu ac adnoddau Arweiniad i'r Asesiad Di-arholiad gennym i gefnogi canolfannau wrth iddynt gyflwyno ein cymwysterau. Ar ben hyn, cyhoeddwyd deunyddiau enghreifftiol yn rhan o'n darpariaeth Dysgu Proffesiynol rhad ac am ddim, ac mae'r rhain i gyd ar gael i'w lawrlwytho o safle Porth. Bwriadwyd y deunyddiau hyn i gefnogi'r gwaith o farcio a safoni gwaith ymgeiswyr.

Deallwn yr hoffai rhai athrawon gael mwy o enghreifftiau. Rydym felly'n ystyried datblygu deunyddiau enghreifftiol ychwanegol i gefnogi'r asesiadau a asesir am y tro cyntaf yn 2027.

Er ein bod yn gweithredu i fynd i'r afael â llawer o'r pryderon a fynegwyd, mae cyfyngiadau o ran sut y gallwn wneud hynny fel y nodwyd yn flaenorol. Ni allwn ddarparu enghreifftiau patrymol wedi'u graddio. Diben enghreifftiau patrymol yw enghreifftio'r safon farcio fel bod athrawon wedyn yn gallu cymhwyso'r meini prawf asesu yn fanwl gywir. Ni phennir graddau a ffiniau graddau ymlaen llaw; maent yn cael eu pennu bob blwyddyn a hynny ar ôl i'r holl fyfyrwyr gwblhau'r asesiadau yn unig.

Yn y cyfamser, hoffem sicrhau canolfannau bod mesurau ystadegol cadarn yn eu lle i sicrhau na fydd y garfan gyntaf o ddysgwyr dan anfantais.

Gallwch fod yn sicr y byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol o ran mynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd a byddwn yn parhau i wrando ar adborth ein canolfannau. Ein blaenoriaeth ni yw sicrhau y cefnogir athrawon a'u bod yn hyderus wrth gyflwyno ein cymwysterau, gan alluogi dysgwyr i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i symud ymlaen.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch ymrwymiad parhaus.

Ian Morgan
Prif Weithredwr, CBAC

Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

26th March 2026

Dear Head of Centre

**Listening to teachers: supporting the delivery of our new Made-for-Wales GCSEs**

In September, teaching began for the first wave of our new Made-for-Wales GCSEs. Since then, we have listened carefully to feedback from teachers and school leaders. In particular, we recognise concerns about the additional administrative workload linked to delivering these new qualifications.

We are grateful for the constructive feedback from teachers, which has highlighted some unintended challenges in the delivery of these qualifications.
As a responsible awarding body, we want to reassure the teaching community that we are taking these concerns seriously and will continue to work with stakeholders to explore potential actions to support delivery and help ease pressures where possible.

At the same time, it is important to recognise WJEC's role and the parameters within which these qualifications were developed. The overall policy direction was set by the Welsh Government through the introduction of the Curriculum for Wales. Our regulator, Qualifications Wales, established the approval criteria for the new qualifications, including the high-level assessment framework, and we developed qualifications accordingly. We are working collaboratively to identify and agree changes where possible.

We have identified several actions that will support schools which are outlined below:

**Agreed actions**
The following actions have been agreed:

- **Extending NEA submission deadlines:** We have extended the deadline for submitting NEA marks for Unit 2 in GCSE English Language and Literature

- **Reviewing future submission timelines:** Building on the above, we will review the submission dates for NEA materials for 2026/27 academic year

- **Guidance on AI use:** We will develop additional guidance to help teachers identify and manage potential risks associated with AI use, particularly in relation to NEA.

Further communication will be issued in due course regarding these actions, and our Series Delivery Team will work closely with centres to ensure they are fully supported as these changes are introduced.

**Exploring further actions**

Alongside these steps, we are exploring additional changes that could be introduced in the future. This work will involve exploratory research, and therefore outcomes cannot be guaranteed.

As part of this process, we are engaging with both the Welsh Government and Qualifications Wales, whose approval may be required for certain proposed actions.

Areas we are currently exploring include:

- Reviewing the sample size requirements for uploading sampled candidate work
- Exploring additional guidance to support exceptions for missing NEA tasks, and where special consideration would/would not apply, in line with JCQ regulations
- Conducting a review of the assessment requirements for GCSE English Language and Literature and GCSE Cymraeg Language and Literature to explore opportunities for addressing workload concerns. Please note, the review is limited to these two subjects and any changes identified would not be introduced until the 2026/27 academic year, at the earliest.

**Supporting teachers with exemplar materials**

To support centres in the delivery of our qualifications, we have previously published assessment criteria and provided NEA Walk-Through resources. In addition, as part of our free Professional Learning offering, we published exemplar materials, all of which can be downloaded from our Portal. These materials are designed to support the marking and standardisation of candidate work.

We understand that some teachers would like more examples. We are therefore exploring the development of additional exemplar materials to support assessments being assessed for the first time in 2027.

Whilst we are taking active steps to address many of the concerns raised, as previously noted, there are limitations in the steps that we can take. We cannot provide graded exemplars. The purpose of exemplars is to exemplify the marking standard so that teachers are able to accurately apply the assessment criteria. Grades and grade boundaries are not fixed in advance; they are set each year only after all students have completed the assessments.

In the meantime, we want to reassure centres that robust statistical measures are in place to ensure that the first cohort of learners will not be disadvantaged.

We remain committed to taking proactive steps to address the concerns raised and will continue to listen to feedback from our centres. Our priority is to ensure that teachers are supported and confident in delivering our qualifications, enabling learners to develop the skills and knowledge they need to progress.

Thank you for your continued support and commitment.



Ian Morgan
Chief Executive, WJEC

Made for Wales.
Ready for the world.